

# Pla a chlefydau sy'n effeithio ar goed Nadolig

## TAFLEN GWYBODAETH

### Gwiddon

Dylech chwilio am ddifrod gwiddon ar eich coed bob 7–14 diwrnod, er y gall y tywydd gwlypach yma yng Nghymru olygu nad ydynt yn gwneud cymaint o ddifrod. Mae gwiddon conwydd sy'n gwau (conifer spinning mites) wedi bod yn broblem fawr yn y de-ddwyrain yn y gorffennol.

Mae wyau'n segur dros y gaeaf ac yn deor yn gynnar yn y gwanwyn, gyda'r rhai ifanc yn bwydo ar y nodwyddau cyntaf i ymddangos. Mae'r rhain yn atgennedlu'n gyflym gan fynd trwy sawl cenhedlaeth mewn blwyddyn, er mai dim ond yn yr haf a'r hydref y byddan nhw'n weithgar fel arfer. Mae'r rhain yn bwydo ar sug trwy dorri'r glasgroen, gan adael difrod lliw rhydlyd ar yr wyneb a gwneud y pinnau'n fwy tebygol o ddadhydradu mewn tywydd poeth, sych, gan gynyddu'r risg o ollwng nodwyddau yn gynnar. Mae'r ystod o widdonladdwyr penodol ar gyfer rheoli gwiddon conwydd sy'n gwau bellach wedi'i gyfyngu i'r defnydd o clofentezine yn unig (Apollo 50SC) EAMU. Mae hwn yn gweithredu ar wyau cenhedlaeth yr haf (ond nid yr wyau sy'n para'r gaeaf) ac ar widdon sydd yn y cyfnod symudol cynnar (newydd ddeor). Mae acequinocyl (Kanemite) yn widdonladdwr arall y sonnir amdano yng nghyd-destun cnydau awyr agored gwydn, ond hyd yma, ym mis Tachwedd 2024, nid yw hwn wedi cael cymeradwyaeth EAMU.



### Gwiddon Nalpella

Mae sawl rhywogaeth o widdonau *Eriophyid* yn gallu effeithio ar goed Nadolig e.e. *N. haarlovi* ar sbriws Norwy a sbriws glas. Gall rhai rhywogaethau heintio'r gwir ffynidwydd (*Abies*) os yw'r tymheredd yn ddigon uchel, a hynny trwy fwydo ar nodwyddau trwy gydol y flwyddyn. Fel arfer, bydd y gwiddon hyn yn bwydo ar ochr isaf y nodwyddau, gan ddifrodi'r glasgroen cwyr a pheri iddyn nhw ymddangos yn llwyd-wyrdd eu lliw. Gall hyn olygu nodwyddau sy'n dueddol o ddadhydradu, crino, a disgyn yn fuan. Mae gwiddon rhwd *Nalpella* yn llai o lawer na gwiddon conwydd sy'n gwau, ac mae angen defnyddio lens llaw x20 wrth chwilio amdanynt ar nodwyddau. Maen nhw siâp torpido ac yn symud yn araf iawn, o'u cymharu â gwiddon conwydd sy'n gwau. Mae rhai gwiddonladdwyr clofentezine penodol yn gweithredu yn erbyn wyau a gwiddon rhwd sydd newydd ddeor. Gellir defnyddio powdrau sylffwr fel Thiopron (UPL Ewrop) EAMU i atal/lladd gwiddon rhwd. Dylid dilyn rhaglen o driniaeth sy'n cael ei ailadrodd bob 3–4 wythnos o ganol Mai tan fis Medi. Gall sylffwr gynnig rhywfaint o reolaeth dros widdon conwydd sy'n gwau, ond gwelwyd bod rhaid ei ddefnyddio ar gyfraddau uwch i wneud hyn, a chyda hyn mae mwy o berygl o ddifrodi nodwyddau (llosg) pan fo'r tywydd yn boeth a'r golau'n llachar.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



## Llyslau

Mae Llysluau Enfawr y Ffynidwydd (Giant Fir Aphid; *Cinaria confinis*) yn bla sy'n effeithio ar y gwir ffynidwydd, ac ar y ffynidwydden Nordman a'r ffynidwydden Urddasol yn enwedig, ac maen nhw wedi dod yn broblem gynyddol yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, yn enwedig os nad yw cwsmeriaid y coed eisiau i blaladdwyr gael eu defnyddio ar ôl mis Medi. Gan fod y llyslau ifanc a'r oedolion yn bwydo o dan y canghennau neu drwy'r rhisgl ar brif foncyffion coed, gall y llysluau hon gynhyrchu cawod fêl, ond pwysicach yw'r niwed y gall niferoedd mawr ei achosi wrth fwydo. Gall y difrod i'r meinweoedd mewnol arwain at bantiau a chreithiau ar y pren yn ddiweddarach.



Er bod pryfetach ysglyfaethus cynhenid, fel buchod coch cwta, adenydd siderog, a phryfed hofran yn gallu rheoli llyslau enfawr y ffynidwydd, yn aml ceir plâu yn gynnwys neu'n hwyr iawn yn y flwyddyn pan nad yw'r ysglyfaethwyr hyn yn weithredol, neu pan fydd nifer y llyslau mewn ardaloedd penodol o blanhigfa mor fawr fel nad yw bio-reolaeth yn debygol o roi digon o reolaeth cyn i'r coed gael eu difrodi.

## Llysluau egin sbriws (*Cinaria pilicornis*)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae oedolion benyw'r rhywogaeth hon wedi'u gweld yn bwydo ar fôn nodwyddau sbriws Norwy a sbriws glas Colorado yn Ne Lloegr. Fel arfer, mae'r rhywogaeth hon yn treulio'r gaeaf fel wyau. Gall y rhain deor yn gynnwys iawn yn y flwyddyn h.y. Mis Mawrth, gan gynhyrchu benywod heb adenydd sydd, wrth i'r blaguriad ddechrau, yn symud allan i fwydo ar y twf ifanc. Mae'r niferoedd ar eu huchaf fel arfer ar ddechrau/ynghanol yr haf. Mae llyslau adeiniog yn ymddangos yn y nythfeydd ac weithiau mae'r rhain yn hedfan tipyn o bellter gan lanio ar goed o fewn yr un blanhigfa neu mewn planhigfeydd eraill. Yn y gwanwyn a dechrau'r haf, gall y nythfeydd luosi'n gyflym, gyda'r benywod yn cynhyrchu niferoedd mawr o epil ifanc byw heb orfod cael cymar. Mae'r rhywogaeth hon o llyslau yn cynhyrchu llawer iawn o gawodydd mêl wrth fwydo, a'r rheini wedi'u heintio â llwydni du. Mae canghennau a heintir yn troi'n ddu a gudiog ac weithiau nid fydd modd gwerthu'r coed hyd yn oed sawl blwyddyn ar ôl y difrod.



Mae modd rheoli'r llysluau hon yn gymharol hawdd, ond mae arnoch angen ei dal yn gynnwys i atal poblogaethau rhag mynd yn fawr. Er bod ysglyfaethu gan bryfed brodorol llesol yn gallu digwydd, yn aml mae angen defnyddio pryfladdwr ym misoedd cynnar y gwanwyn neu'r hydref pan nad oes pryfed llesol yn y planhigfeydd hefyd. Gall y defnydd o acetamiprid e.e. Gazelle (ar label), Spirotetramat, h.y. Batavia, EAMU a chynhyrchion asid brasterog, h.y. Flipper (EAMU), hefyd fod yn effeithiol wrth reoli llyslau. Mae canlyniadau da hefyd wedi'u cael o ddefnyddio asiantau rheoli ffisegol nas enwyd (y defnydd o wlychwyr rheoli plâu ffisegol e.e. S B Plant Invigorator).

Gall **Adelges** ddod yn broblem ddifrifol mewn planhigfeydd o wir ffynidwydd, yn arbennig ffynidwydd Nordman, ffynidwydd Fraser, a'r ffynidwydden Urddasol. Mae'r llysluau wnanog ffynidwydd arian (*Adelges*, bellach *Dreyfusia nordmanniana*) yn broblem yn bennaf ar ffynidwydd Nordman, ond nid ar honno yn unig.

Mewn cyferbyniad, mae **llysluau wnanog pinwydd balmaidd** (*Dreyfusia piceae*) yn bla mawr ar



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



ffynidwydd Fraser a ffynidwydd urddasol, er y gall hefyd niweidio ffynidwydd Nordmann, pinwydd balmaidd a sawl rhywogaeth arall o *Abies*. Fel gyda *Dreyfusia nordmannianae*, mae'r rhan fwyaf o gyflwyno a lledaenu i blanhigfeydd yn digwydd oddi ar stoc plannu neu oddi ar blanhigion sydd wedi'u heintio'n ddrwg sy'n cael eu plannu gerllaw, gyda rhywogaethau *Adelges* yn cael eu symud o goeden i goeden gan beiriannau, ar offer a ddefnyddir wrth dorri a thocio, ac ar ddillad staff sy'n gweithio yn y coed.

Gall ***Adelges*** fod yn broblem sylweddol, ac maent yn arbennig o weithredol yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r benywod yn gaeafu o dan gaen cwyr gwlanog, wedi'u diogelu rhag ysglyfaethwyr a phryfladdwyr sy'n ddibynnol ar gysylltiad.



Yn achos y llyslau wlanog pinwydd balmaidd, mae llyslau benyw anaeddfed yn gaeafu ar y coed (fel llyslau duon bach iawn gydag ymyl gwyn o gwyr o amgylch ymylon eu cyrff) ynghlwm wrth yr egin o gwmpas neu o dan y blagur. Mae'r rhain yn anodd iawn eu canfod yn enwedig pan fo lefel y pla'n fach. Mae'r *Adelges* benyw yn gorffen eu datblygiad (cyrraedd eu llawn dwf) erbyn diwedd mis Ebrill. Maen nhw'n dodwy wyau wrth ymyl eu safleoedd bwydo, ac mae'r rheini'n deor wrth i goed flaguro. Maen nhw'n weithredol am ychydig ddyddiau ac yna'n ymgartrefu mewn safleoedd bwydo, fel arfer mewn craciau yn rhisgl y coed. Ymlusgwyr bach iawn, llwyd tywyll/du a ddaw o wyau'r benywod hyn, ac mae'n nhw'n symud allan ar yr egin newydd i fwydo ar y nodwyddau ifanc meddal.

Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r difrod a achosir o lawer o bwys. Mwy pwysig yw'r *Adelges* anaeddfed sy'n setlo ar risgl coesyndau a brigau. Erbyn mis Gorffennaf mae'r rhain yn dodwy wyau ac o hynny hyd at ddiwedd mis Hydref ymlaen gallant gynhyrchu cenedlaethau pellach o *Adelges*, gyda phob un yn cynyddu'r difrod y mae eu bwydo'n ei achosi i goesyddau ac egin y coed. Symptomau'r ymosodiad yw smotiau o wllân cwyr gwyn ar risgl coesyndau, egin wedi chwyddo a'i aflunio (gowtiog), y blagur terfynol a blagur eraill ddim yn dechrau tyfu yn y gwanwyn. Buan iawn y gall haint olygu nad oes modd gwerthu'r coed.

Gellir defnyddio sawl pryfladdwr i reoli – mae flonicamid h.y. Mainman EAMU, thiaclopid e.e. Calypso EAMU a spirotetramat h.y. Batavia, EAMU a chynnyrch asid brasterog h.y. Flipper (EAMU) yn gallu bod yn effeithiol. Ond dylid cynllunio rhaglenni chwistrellu er mwyn rheoli hwn a llyslau gwlanog y ffynidwydd arian (*Dreyfusia nordmannianae*) yn ofalus er mwyn dal pob cenedlaeth o *Adelges* pan fyddant yn fwyaf bregus, a dylid cynnwys cynnyrch actif o sawl grŵp o bryfladdwyr er mwyn osgoi ymwrthedd. Mae cynnyrch actif sy'n drawsllaminaid e.e. thiaclopid neu sy'n gallu symud drwy system drawsleoli coed mewn ffloem a sylem h.y. spirotetramat yn arbennig o ddefnyddiol. Ar safleoedd lle nad yw llyslau gwlanog yn broblem gydnabyddedig, neu lle ceir lefelau isel iawn o bla, gallai defnyddio lambda cyhalothrin h.y. Hallmark with Zeon Technology yn y ffordd arferol (dechrau–canol Mai, cyn blaguro) yn y



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



flwyddyn blannu ac am 1 i 2 flynedd wedyn fod yn ddigon. Efallai y bydd angen atgyfnerthu hwn yn nes ymlaen yn y tymor pan fo niferoedd llyslau yn uwch a hynny trwy ddefnyddio pryfladdwyr, gyda thua 4 wythnos rhwng pob un ohonynt, gan ddefnyddio rhaglen sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r pryfladdwyr uchod, os nad pob un ohonynt. Dylid nodi, oherwydd y ffordd y mae'n gweithio, nad yw spirotetramat (Batavia) yn lladd y plâu hyn yn gyflym, weithiau gall 5-7 diwrnod fynd heibio cyn y gwelir ei effaith.



Oedolyn *Dreyfusia piceae* yn gaeafu



Difrod dros sawl tymor wedi'i achosi gan *Dreyfusia piceae*



Difrod bwydo *Dreyfusia nordmannianae* wedi aflunio'r nodwydd

### Lindys

Mae'r gwyfyn afal brown golau yn bla cyffredin ar blanhigion cnydau ffrwythau a choed mewn meithrinfeydd ledled y rhan fwyaf o'r DU, gan gynnwys yr Alban. Yn bla difrifol yn yr UDA, a ddechreuodd effeithio ar ffynidwydd Douglas oedd yn cael eu tyfu fel coed Nadolig tua phum mlynedd yn ôl, dechreuwyd ei weld yn bla ar ffynidwydd Nordmann yn enwedig ond hefyd ar ffynidwydd Fraser yn y DU.

Gellir canfod, adnabod a monitro poblogaeth y gwyfyn afal brown golau yn hawdd drwy osod trapiau fferomon mewn planhigfeydd lle gwelwyd difrod nodweddiadol y deilrolwr hwn h.y. ar egin, nodwyddau a blagur. Gellir cael dwy genhedlaeth o wyfynod afal brown golau y flwyddyn, gyda lindys a gynhyrchwyd o wyau a ddodwyd ym mis Mai i'w gweld yn bwydo ar goed am y tro cyntaf ym mis Mehefin/Gorffennaf. Gall ail don o oedolion ym mis Gorffennaf gynhyrchu rhagor o lindys sy'n dechrau bwydo ar nodwyddau, egin a blagur coed ym mis Awst a mis Medi, ac os yw'r tywydd yn gynnes, hyd ddiwedd yr hydref/dechrau'r gaeaf. Efallai y bydd lindys sydd heb orffen tyfu ac wedi chwileru erbyn diwedd yr hydref yn gaeafu ar y coed mewn lloches a gaiff ei chreu drwy rwymo nodwyddau ynghyd â gwe o sidan neu o fewn blagur. Maent yn dod allan o'u gaeafgwsg ym mis Mawrth neu ddechrau mis Ebrill, ac yn dechrau bwydo rhagor ar nodwyddau a blagur hyd nes y bydd y blagur yn dechrau tyfu. Wedyn maent yn chwileru ar goed neu yn y pridd o'u cwmpas. Yn anffodus, mae'r gwyfyn afal brown golau wedi datblygu ymwrthedd i amrywiaeth eang o bryfladdwyr, a'r unig un y gellir dibynnu arno am reolaeth effeithiol ar hyn o bryd yw indoxacarb e.e. Steward EAMU.



Gwyfyn afal brown golau – oedolyn

Neu gallai tyfwyr roi cynnig ar ddefnyddio'r cyfrwng bio-reoli, *Bacillus thuringiensis* e.e. Dipel DF, yn rheolaidd, gan ddechrau cyn gynted ag y bydd oedolion yn dechrau cael eu dal mewn



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



trapiau fferomon ac yna bob 8–14 diwrnod wedi hynny nes byddant wedi peidio â hedfan. Dim ond yn eu hinstar cyntaf y bydd y cynnyrch hwn yn lladd lindys h.y. rhai sydd newydd ddod allan o wyau.

### Clefydau

Mae tywydd garw yn gallu gwaethygu Necrosis Nodwyddau'r Tymor Presennol yn Ffynidwydd Nordmann a Ffynidwydd Urddasol yn ystod cyfnod cynnar twf coed. Cydnabyddir erbyn hyn mai haint ffwngaid yn y goeden sy'n achosi'r symptomau a welir ar nodwyddau egin y tymor presennol. Mae'r necrosis hwn yn tueddu i fod yn llai o broblem lle mae'r coed sy'n cael eu tyfu yn rhai sy'n blaguro'n hwyrach a phan fydd tywydd y gwanwyn ar ddechrau'r blaguro yn oer neu'n gynnes ond, yn bwysicaf oll, yn sych. Yn gyffredinol, mae'r clefyd ar ei waethaf pan fydd y tywydd yn boeth ac yn llaith, a phan geir glaw yn gynnar yng nghyfnod tyfu'r coed. Mae'n tueddu i ddatblygu'n fwyaf difrifol pan fydd nodwyddau ifanc yn araf i sychu ar ôl glaw. Y symptom cyntaf a welir yw marciau llosgi oren/brown amlwg ar wyneb uchaf nodwyddau. Mae'r rhain yn datblygu'n gyflym yn fandiau oren/brown a brown llwyd ar draws lamina'r nodwydd. Yn ddiweddarach bydd sborau duon yn bolio allan o ochr isaf y nodwyddau necrotig. Fel arfer, bydd nodwyddau yr effeithir arnynt yn disgyn rhwng diwedd mis Gorffennaf hyd at fis Medi h.y. weithiau gan adael cyfran uchel o dyfiant egin newydd y tymor presennol yn gwbl noeth. Mae'n anochel na ellir gwerthu coed yr effeithir arnynt gan ddrwg, hyd yn oed os cânt eu gadael am sawl blwyddyn mewn ymgais i roi cyfle iddynt wella. Er bod rhai ffyngleiddiaid mewn treialon labordy wedi dangos eu bod yn gweithio yn erbyn y ffwng *Sydowia polyspora*, nid oes yr un ohonynt hyd yma wedi gallu cynnig rheolaeth ddibynadwy dan amodau tyfu masnachol yn y maes. Am ragor o wybodaeth am glefydau nodwyddau yn benodol, gweler ein taflen ffeithiau.



Symptomau necrosis

Bydd y **Rhwd Chwyn Tân** sy'n effeithio ar ffynidwydd Nordmann yn achosi symptomau tebyg i necrosis nodwyddau'r tymor presennol i ddechrau, gyda llawer o achosion o'r haint yn gysylltiedig â thywydd cynnes neu boeth a chyfnodau o law trwm yn ystod cyfnod blaguro cynnar y coed. Mae arwyneb uchaf nodwyddau sydd wedi'u heintio yn dangos marciau llosgi brown/oren fel y ceir gyda'r necrosis, ond yn wahanol i'r necrosis mae sborau oren ysgafn yn datblygu'n gyflym iawn ar ochr isaf nodwyddau heintiedig. Mae nodwyddau yr effeithiwyd arnynt eu taflu o fewn cyfnod byr iawn i ganfod yr haint, ac yn llawer cyflymach na gyda'r necrosis. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o'r ffwng rhwd, mae gan Rwd Chwyn Tân ail blanhigyn sy'n ei gynnal, sef yr helyglys hardd (nid helyglys America). Gall hefyd heintio rhywogaethau ffiwsia, godetia a clarkcia.



Sborau rhwd chwyn tân yn cael eu cynhyrchu

Cyfyngedig yw'r opsiynau rheoli. Mae ffyngladdwyr Conazole fel tebuconazole (Folicur) hefyd myclobutanil (Systhane 20EW) ac azoxystrobin (Amistar) wedi dangos mewn treialon eu bod yn gweithio rhywfaint yn erbyn y ffwng hwn, ond naill ai nid oes caniatâd i'w defnyddio ar blanhigion



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



addurnol awyr agored, nid ydynt ar gael i'w defnyddio mwyach, nid ydynt yn ddibynadwy pan gânt eu defnyddio'n fasnachol, neu gallent fod yn lyswenwynol i'r coed. Felly ar hyn o bryd, y cyngor yw i osgoi plannu ffynidwydd Nordmann mewn ardaloedd lle ceir helyglys hardd, boed hynny mewn caeau neu'r gwrychoedd neu goedydd o gwmpas, ac anelu at reoli'r chwyn hwn o fewn planhigfeydd presennol fel nad oes egin sydd wedi'i heintio gan rwd yn bresennol pan fydd y coed yn blaguro. Yn anffodus, mae'r Helyglys Hardd yn anodd i'w ddifa, mae ganddo wreiddiau dwfn iawn, a gall lledaenu ar draws safleoedd drwy had a thrwy'r stolonau a dyf trwy'r pridd o amgylch y rhiant blanhigion. Nid yw'n sensitif iawn i lyffosad, felly gall gymryd peth ymdrech ac amser i gael gwared ag ef cyn plannu.



Helyglys Hardd yn cynhyrchu llu o hadau a gludir gan y gwynt

### **Phytophthora** (*Phytophthora cinnamomi* fel arfer)

Yn dilyn hydref, gaeaf, a dechrau'r gwanwyn gwlyb, mae'r clefyd hwn a gludir yn y pridd yn broblem sylweddol mewn llawer o blanhigfeydd ffynidwydd Fraser neu ffynidwydd Urddasol yn y DU. Mae'r heintio'n digwydd yn yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn, yn enwedig os yw'r gaeaf yn gynnes ac yn wlyb. Yn aml bydd y clefyd yn cyrraedd y safle ar ddeunydd plannu sydd wedi'i heintio, ac wedi hynny caiff ei ledaenu o gae i gae ar dractorau a pheiriannau a chan ddŵr o law trwm yn draenio o dir sydd wedi'i heintio i dir cyfagos. Gall ei ddatblygiad fod yn bytiog mewn caeau, ac yn aml mae'n fwyaf amlwg lle caiff coed eu plannu ar dir sy'n draenio'n wael. Nid oes unrhyw gynnyrch ar gael i'w reoli ar hyn o bryd. Lle ceir heintiad difrifol, gallech ystyried ei drochi â chynnyrch sy'n cynnwys potasiwm ffosffit ond efallai mai cyfyngedig fydd ei effeithiolrwydd.



Symptomau Phytophthora

Caiff **Rhizosphaera** ei ledaenu wrth i law dasgu, gan heintio twf y tymor presennol, ac yn y diwedd, ei ladd. Fel arfer, ni fydd difrifoldeb y difrod a achosir gan y clefyd hwn i'w weld tan ddiwedd y gaeaf neu ddechrau'r gwanwyn y flwyddyn ganlynol. Mae sbrïws h.y. Sbrïws Norwy a sbrïws glas Colorado, yn agored iawn i niwed, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ffwng hwn wedi cael ei gadarnhau ar ffynidwydd Nordmann, gan achosi niwed difrifol mewn rhai achosion. Nid yw'r DU bellach yn cymeradwyo'r defnydd o'r ffyngleiddiaid copr i'w reoli, felly ar hyn o bryd nid oes opsiynau dibynadwy.

### **Chwyn**

Mae chwyn bellach yn dod yn broblem gynyddol o gwmpas coed Nadolig ifanc a'r rhai sydd wedi hen sefydlu. Mae'r glaw diweddar wedi arwain at egino cyflym a thwf amrywiaeth eang o chwyn blynyddol mewn planhigfeydd ifanc. Hefyd, mae chwyn llydanddail a chwyn glaswellt wedi'u sbarduno i dyfu, i flodeuo ac i hadu. Bydd pob chwynladdwr cynnar gweddilliol wedi torri i lawr yn y pridd erbyn y cyfnod hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, ac yn enwedig yn achos coed ifanc sydd wedi gorffen eu twf blynyddol, gellir gohirio tynnu chwyn nes caiff glyffosad cyffredinol ei ddefnyddio ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref. Gyda choed ifanc, nid oes angen i chi anelu at glirio'r tir yn llwyr, gan y gall gorchudd ysgafn o chwyn amddiffyn rhag gwyntoedd poeth, sych a rhag difrod solar yng nghanol a diwedd yr haf. Gallai rhywfaint o drin chwyn yn unigol, fel ysgall rhedegog â chlopyralid, (Dow Shield 400) fod o fudd.

Dyma amser da i ystyried eich cynlluniau plannu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddewis safleoedd nad ydynt yn cynnwys marchrawn, taglys parhaol na phoblogaethau mawr o chwyn



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



lluosflwydd eraill. Os ydych y plannu ar safleoedd â, dylech osgoi ardaloedd lle tyfwyd had llin neu olew had rêp, gan y bydd risg sylweddol y bydd y rhain yn cario chwyn yn y tymor canlynol. Hefyd, dylech osgoi safleoedd lle mae chwyn gwair eilflwydd sydd â rhywfaint ymwrthedd i'r rhan fwyaf o chwynladdwyr e.e. gwair du, wedi ymsefydlu. Ar gyfer planhigfeydd presennol, edrychwch ar y poblogaethau chwyn presennol cyn dewis pa gynnyrch i'w ddefnyddio yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn y gwanwyn. Gellir defnyddio Diflufenican h.y. Hurricane SC a/neu glyffosad e.e. Roundup (dim ond rhai mathau o gynnyrch y caniateir eu defnyddio'n gyffredinol ar goed Nadolig e.e. EAMUs neu gymeradwyaeth label), yn hwyrach yn y flwyddyn. Ar yr un pryd neu'n ddiweddarach yn yr hydref, gellir defnyddio chwynladdwyr gweddilliol fel dull rheoli cyn i'r chwyn blynyddol sy'n egino ddiwedd hydref neu yn y gaeaf ymddangos ac, mewn rhai achosion, ar ôl iddyn nhw ymddangos.

## Ymwadiad

*Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegau diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaleiddiaid a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau pwmpenni, ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'The Revised Long Term Arrangements For Extension Of Use (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaleiddiad yn ôl risg y defnyddiwr ei hun, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr ac yn gywir ar adeg ysgrifennu hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaleiddiaid. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd sydd â chymhwyster gan BASIS.*



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



**GARDDWRIAETH**  
**HORTICULTURE**